

# Teyrnas hynafol

## An ancient kingdom

Dychmygwch dir a amddiffynnir gan fynyddoedd uchel ac afonydd cyflym. Gyrroedd mawr o wartheg cryfion yn pori ar borfeydd y llechweddau. Gweddoedd o ych yn troi pridd tywyll ar lethrau'r dyffrynnoedd. Llwybrau o fwg glas niwlog yn nodi pob cartref a fferm brysur. Grŵp o farchogion yn trotian yn raddol trwy lannerch mewn coetir.

Caiff llongau main eu glanio mewn hafanau diogel ar hyd yr arfordir a glannau'r afonydd. O wrando'n ofalus, fe glywch chi wahanol leisiau ac acenion: Gwyddelig, Ffrangeg, Albanaidd a Sgandinafaidd, masnachwyr a theithwyr i Gymru, wedi'u cysylltu gan lwybrau dibynadwy'r afon a'r môr.

Dyma berfeddwledydd bywiog Gwynedd – teyrnas a reolwyd gan dywysogion pwerus a chanddynt dras chwedlonol.

Dyma deyrnas Gwynedd, y mae ei gwreiddiau'n ymestyn yn ôl mewn amser i Brydain ymhell ar ôl diwedd yr Ymerodraeth Rufeinig.

Imagine a land guarded by soaring mountains and swift rivers. Great herds of prized hardy cattle graze hillside pastures. Teams of oxen turn dark soil on valley slopes. Trails of hazy blue smoke mark each busy home and farm. A group of horse riders trot steadily through a woodland clearing.

Slender ships are beached at safe havens along the coast and riverbanks. Listen carefully and you'll hear different voices and accents: Irish, French, Scottish and Scandinavian – traders and travellers to Wales, connected by trusted river and sea routes.

These are the vibrant heartlands of Gwynedd – a kingdom ruled by powerful princes with a legendary lineage.

This is the kingdom of Gwynedd, its origins stretching back in time to Britain at the end of the Roman Empire.

“...felly y gwyddys mai Gwynedd yn y gogledd sydd ddiogelaf yn ansawdd y wlad, a mwyaf cynhyrchiol o ŵr cryfion eu cyrff, a ffrwythlonaf mewn daear fras. Dywedir megis y gallai mynyddoedd Eryri fod yn ddigon o borfeydd i holl yrroedd Cymru i gyd pes cesglid hwy i'r un man, felly hefyd y gallai ynys Fôn, oherwydd ei ffrwythlondeb mewn cnydau gwenith, ddigoni holl Gymru...”

Gerallt Gymro o'i Ddisgrifiad o Gymru, 1194

“...so Gwynedd is better defended by nature, is more productive of men distinguished for bodily strength, and more fertile in the nature of its soil; for, as the mountains of Eryri (Snowdon) could supply pasturage for all the herds of cattle in Wales, if collected together, so could the Isle of Mona (Anglesey) provide a requisite quantity of corn for all the inhabitants...”

Gerald of Wales from his Description of Wales, 1194



Castell Dolbadarn/Dolbadarn Castle

© Crown copyright (2012) Visit Wales



## DILYNWCHY STORI I...

**Gastell Dolbadarn** a'i dŵr crwn cain gyda golygfeydd dramatig o Llyn Padarn – fe'i codwyd gan Llywelyn ab Iorwerth er mwyn cael prif lwybr trwy berfeddwlad Eryri ac i ddiogelu'r porfeydd brenhinol. (35 munud yn y car o Gonwy)

## FOLLOW THE STORY TO...

**Dolbadarn Castle** and its fine round tower with dramatic views of Llyn Padarn – built by Llywelyn ab Iorwerth to command a main routeway through the heartland of Snowdonia and protect the royal pastures. (A 35 minute drive from Conwy)

# Gwybod eich lle

## Knowing your place

Sut beth yw hi i fyw yng Nghymru'r canoloesoedd? Mae'n sicr yn wahanol iawn i fywyd yr 21ain ganrif.

Y tywysog yw'r person pwysicaf.

Wedyn, mae tri phrif grŵp o bobl mewn cymdeithas:

1. **arglwyddi** ac **arglwyddesau** cyfoethog;
2. pobl oedd yn rhydd rhag clymau ag arglwydd, fel masnachwyr a chreffftwyr, Adwaenwyd y rhain fel **uchelwyr**. Gelwid merched oedd yn ddinasyddion rhydd yn **foneddigesau**;
3. mae'r gwerinwyr sy'n rhwym wrth y tir ac i wasanaethu eu harglwydd, ac yn methu gadael eu fferm neu bentref heb ganiatâd, yn cael eu hadnabod fel **taeogion** neu bobl heb fod yn rhydd.

Mae'n rhaid i bawb, boed yn rhydd neu beidio, dalu rhent a thollau i'r tywysog, a bydd llawer yn ei wasanaethu mewn brwydrau.

What is it like living in medieval Wales? Certainly it is very different from life in the 21st century.

The prince is the most important person.

Then there are three main groups of people in society:

1. wealthy lords and ladies, **arglwyddi** and **arglwyddesau**;
2. people who are free from ties to a lord, such as merchants and craftspeople, known as **uchelwyr** (freemen). Freewomen are **boneddigesau**;
3. peasants who are tied ('bonded') to the land and to serving their lord, not able to leave their farm or village without permission, are known as the **taeogion** or unfree.

Everyone, whether free or not, has to pay rent and dues to the prince, and many will serve him in battle.



mae gan y tywysog osgordd o 36, sy'n cynnwys gwarchodwyr, marchogion, gweision a cherddorion.

the prince has a group of 36 attendants, including bodyguards, riders, servants and musicians.



capten y cartref yw'r **pentulu** ac weithiau mae'n perthyn i'r tywysog.

the **pentulu** is captain of the household and sometimes is a relative of the prince.



yr **hebogydd** yw'r prif weilchyd sy'n byw gyda'i adar yn ysgubor y **brenin**.

the **hebogydd** is the chief falconer who lives with his birds in the king's barn.




**ceidwad** y **drws** gyda'i agoriadau a phorthor gyda'i bastwn (mae'n gofalu am unrhyw garcharorion).

the **doorkeeper** with his keys and a porter with his mace (he looks after any prisoners).

Oeddech chi'n gwybod?

Roedd cyfraith Cymru'n caniatáu i ferched ddod â'u priodas i ben os oedd gan eu gŵr anadl difrifol wael.



Do you know?

Welsh law allows women to end their marriage if their husband has seriously bad breath.

# Gweithio ar y tir

## Working the land

Mae gan bawb ddarn o dir i'w ffermio. mae'r gwaith yn galed o fore gwyn tan nos; yn aredig ac yn hau hadau, yn cadw anifeiliaid oddi ar blanhigion sy'n tyfu a'r gwaith gwaethaf oll, tynnu chwyn. mae'r sawl sydd ynghlwm â'r ystâd frenhinol yn gweithio ar gaeau'r tywysog am sawl wythnos ar adegau penodol o'r flwyddyn, gan baratoi'r tir a chynaeafu'r cnydau.

Mae gan y dinasyddion a'r tenantiaid sy'n gweithio ar eu tir eu hunain y tu allan i'r faenor orchwylion i'w gwneud i'r tywysog hefyd. Mae hyn yn cynnwys trwsio'r felin, cloddio cyrsiau dŵr newydd ac adeiladu siambr gain iddo.

mae'r pentrefwyr yn cydweithio i gynhyrchu bwyd i'r pentref yn ogystal ag i'r grŵp brenhinol pan ddaw i sefydlu llys. Croesewir swyddogion y llys a'r tywysog. mae'r **maer** – y prif stiward – yn gwneud ei westeion yn gysurus. Caiff hyd yn oed y cŵn hela eu bwydo'n dda!

Everyone has a plot of land to farm. They work hard from dawn to dusk; ploughing and sowing seed, keeping animals off growing plants and the worst job of all, pulling weeds. Those tied to the royal estate work the prince's fields for several weeks at set times of the year, preparing the ground and harvesting the crops.

Both freemen and tenants who work their own land outside the manor also have tasks to do for the prince. This includes building him a fine chamber, repairing the mill and digging new watercourses.


The villagers work together to produce food for the village as well as the royal party when it arrives to set up court. The court officials and the prince are welcomed. The **maer** – the chief steward – makes his guests comfortable. Even the hunting dogs are fed well!

### Oeddech chi'n gwybod?

Roedd gwartheg mor werthfawr roeddent yn cael eu defnyddio fel math o gyfoeth yn lle darnau arian.

### Do you know?

Cattle are so valuable that they are used as a form of wealth instead of coins.



# Brenhinlin a ddethlir

## A celebrated dynasty

Mae storïwyr yn siantio'r goeden deuluol frenhinol trwy sawl cenedlaeth, yn ôl i reolwyr Prydeinig chwedlonol. Cymerir cryn falchder yn y llinach ar y cyd hon, sy'n atgyfnerthu hunaniaeth a hawliad cyfreithlon i diriogaeth.

Dethlir rhyfelwyr a gwladweinwyr pwerus: yn enwedig Gruffudd ap Cynan a'i fab Owain Gwynedd, ac ŵyr Owain, Llywelyn ab Iorwerth. Mae o'n briod â Joan, merch Brenin John o Loegr. Mae'r uniad brenhinol hwn yn sicrhau heddwch a goruchafiaeth Gwynedd fel prif frenhinlin Cymru.

Daw pŵer y frenhinlin i ben gyda Llywelyn ap Gruffudd. Ymosodwyd arno gerllaw Llanfair-ym-muallt ym 1282, wrth iddo amddiffyn annibyniaeth Gwynedd hyd y diwedd.

Story-tellers chant the royal family tree through many generations, back to legendary British rulers. Great pride is taken in this shared ancestry, reinforcing identity and rightful claim to territory.

Powerful warriors and statesmen are celebrated: particularly Gruffudd ap Cynan, his son, Owain Gwynedd and Owain's grandson, Llywelyn ab Iorwerth. He is married to Joan, the daughter of King John of England. This royal union ensures peace and Gwynedd's supremacy as the leading dynasty of Wales.


The dynasty's power ends with Llywelyn ap Gruffudd. He is ambushed near Builth Wells in 1282, defending Gwynedd's independence to the last.

Teyrn. 844-78  
Reign

Disgyniad trwy'r cenedlaethau

Descended through generations

Gruffudd ap Cynan ab Iago  
Teyrn. 1081-1137  
Reign



383

Y Rhufeiniaid yn gadael Cymru  
Romans leave Wales

400

600

784

Adeiladu Clawdd Offa  
Building of Offa's Dyke

800

844-878

Y Llychlynwyr yn ymosod ar Gymru  
Viking attacks on Wales

1000

1066

Brwydr Hastings  
The Battle of Hastings

1086

Dechrau rhoi Llyfr Domesday at ei gilydd  
Compilation of the Domesday Book begins

1100

1189

Rhisiart Lewgalon yn dod yn frenin  
Richard the Lionheart becomes king

1200

1215

Magna Carta  
Magna Carta

1265

Llywelyn ap Gruffudd yn cael ei gydnabod yn 'Dywysog Cymru'  
Llywelyn ap Gruffudd recognised as 'Prince of Wales'

1283

Diwedd annibyniaeth Cymru  
End of Welsh independence

1300

1381

Gwrthryfel y Gwerinwyr  
Peasant's Revolt

1400-12

Owain Glyndŵr yn codi yn erbyn y Saeson  
Owain Glyndŵr rises against the English

1400

632-750

Esgyniad Islam yn Ewrop  
Rise of Islam in Europe

793

Y Llychlynwyr yn ymosod ar Ynys Metgawdd  
Vikings attack Lindisfarne

814

Marwolaeth Charlemagne  
Death of Charlemagne

871

Alfred Mawr yn cael ei goroni fel Brenin cyntaf Lloegr unedig  
Alfred the Great crowned first King of a united England

1099

Y Groesgad Gyntaf  
The First Crusade

1191

Sefydlwyd Abaty Aberconwy gan yr Urdd Sistersaidd  
Aberconwy Abbey founded by Cistercian order

1211

Y Brenin John yn ymosod ar Fangor ac yn ei llosgi  
King John attacks and burns Bangor

1276-1283

Dau ryfel annibyniaeth Cymru yn erbyn Edward I  
Two Welsh wars of independence against Edward I

1347-1350

Y Pla Du yn gwibio trwy Ewrop  
Black Death sweeps Europe

1380

Chaucer yn dechrau ysgrifennu'r Canterbury Tales  
Chaucer writes Canterbury Tales

# Ymryson a gwrthryfel

Mae'r tywysogion wedi brwydo am annibyniaeth yn erbyn y Sacsoniaid, y Llychlynwyr a'r Normaniaid ers canrifoedd a cheir gwrthryfel cyson rhwng teyrnasoedd Cymru. Fodd bynnag, mae'r frwydr fwyaf gyda choron bwerus Lloegr.

Mae Edward, Brenin Lloegr, yn benderfynol o ddarostwng pobl Gwynedd ar ôl cyfres o wrthryfeloedd ffyrnig. Mae'n adeiladu cyfres o gaerau arfordirol a threfi caerog arswydus.

“Gwelais gadau geirw a rhuddfeirw rhain,  
Oedd rydd i fleiddiau eu hargyfrain.  
Gwelais eu hado heb eu hadain  
I dan draed adar, gwŷr gwanar gwain.  
Gwelais eu trychni, trychant celain;  
Gwelais wedi cad coludd ar ddrain..”

Cynddelw Brydydd Mawr yn dathlu gorchestion milwrol y tywysog Owain Gwynedd, 12<sup>nd</sup> ganrif.  
(Owain Gwynedd, mab Gruffudd ap Cynan, oedd tywysog Gwynedd o 1137–70.  
Mae hon yn rhan o gerdd o fawl, a gyfansoddwyd rhwng 1167–70 yn ôl pob tebyg)

“**1238** Y flwyddyn nesaf i honno,  
cychwynnwyd castell Aberconwy, a  
Biwmaris a Chaernarfon a Harlech. Ac ar y  
pumed diwrnod o ddiwedd mis Ebrill,  
ganed Edward o Gaernarfon. Ac yn ystod yr  
haf hwnnw, meddiannodd y brenin  
Wynedd i gyd, aeth Dafydd ap Gruffudd yn  
herwr, a chipiodd y brenin wystlon o  
Wynedd.”

Detholiad o 'Brut y Tywysogion'



# Rivalry and rebellion

For hundreds of years the princes have struggled against Saxons, Vikings and Normans, and there is constant rivalry between the Welsh kingdoms. However, the greatest struggle is with the powerful English crown.

Edward, King of England, is determined to subdue the people of Gwynedd after a series of fierce rebellions. He builds a series of formidable coastal fortresses and walled towns.

“I saw cruel battles and stiff red corpses  
whose burial was left to the wolves;  
I saw fierce soldiers killed  
and left without their arms beneath birds' claws;  
I saw injury inflicted on them, three hundred corpses,  
after battle I saw bowels hanging on thorns..”

Cynddelw Brydydd Mawr celebrates prince Owain Gwynedd's military feats, 12th century

“**1283** The year next to that was  
commenced the castle of Aberconwy, and  
Beaumaris and Caernarvon and Harlech.  
And on the fifth day from the end of the  
month of April, Edward of Caernarvon was  
born. And that summer the king gained  
possession of all Gwynedd, and Dafydd ap  
Gruffudd went into outlawry, and the king  
took hostages from Gwynedd.”

Extract from the 'Brut y Tywysogion' (Chronicle of the princes)



## DILYNWCHY STRAEON I'R...

Roedd **Deganwy** yn llys brenhinol ac yn gadarnle rheolwyr cynharaf Gwynedd. Brwydrwyd dros y ddau gopa a lywodraethodd afon Conwy dros gannoedd o flynyddoedd. Cynigiant olygfeydd ysblennydd o'r foryd i ymwelwyr heddiw.

(3.2km / 2 filltir neu 5 munud yn y car o Gonwy)

**Castell Dolwyddelan** gyda'i olygfa hardd o fynyddoedd Eryri – cadarnle pwysig i'r tywysog Llywelyn ap Gruffudd

(30 munud yn y car o Gonwy)

## FOLLOW THE STORIES TO...

**Deganwy** was a royal court and stronghold of Gwynedd's earliest rulers. The twin peaks that dominated the mouth of the river Conwy were fought over for hundreds of years. Today they offer visitors stunning estuary views.

(3.2 km / 2 miles or 5 minutes by car from Conwy)

**Dolwyddelan Castle** with its stunning backdrop of the mountains of Snowdonia – an important stronghold for Prince Llywelyn ap Gruffudd

(a 30 minute drive from Conwy)

## Geiriau tirwedd Cymraeg Welsh landscape words

**Castell** [kast-e-th (to pronounce ll, place tongue at the roof of mouth behind the two front teeth and blow)] – fortified town or castle

**Dinas** [din-as] – hill fort

**Caer** [kye-rr] – fortress or fortified settlement

אב עירקאי ירו נוטעוים די עיריה לנגיב אגור אגור  
האס אהא ירו חסידא אגור יר עירקאי ירו

## Gwau geiriau Weaving words

Mae beirdd y llys yn dathlu  
arweinyddiaeth a gwroldeb mawr.

Gwrandewch ar eu cerddi'n clodfori'r  
tywysogion rhyfelgar. Clywch y  
balchder yn eu lleisiau wrth iddynt  
ganu am lwyddiannau'r tywysogion ar  
faes y gad.


Mwynhewch iaith y tywysogion –  
Cymraeg y Canoloesoedd – fel a  
ysgrifennwyd gan y beirdd, rhyw 800  
mlynedd yn ôl.

The court poets celebrate great  
leadership and bravery.

Listen to their poems praising the  
warrior princes. Hear the pride in their  
voices as they sing of the princes'  
successes in battle.

Enjoy the language of the princes –  
medieval Welsh – as composed by the  
poets some 800 years ago.

אב עירקאי ירו נוטעוים די עיריה לנגיב אגור אגור  
האס אהא ירו חסידא אגור יר עירקאי ירו



Llys Abergwyngregyn  
Abergwyngregyn Palace



Castell Dolbadarn  
Dolbadarn Castle



Bryn Gaer/Castell Dinas Emrys  
Dinas Emrys Castle/Hillfort



Castell Cricieth  
Criccieth Castle



Abaty Aberconwy  
Aberconwy Abbey




Castell Deganwy  
Deganwy Castle




Eglwys Llanrwst  
Llanrwst Church



Castell Dolwyddelan  
Dolwyddelan Castle



Abaty Cymer  
Cymer Abbey



Castell y Bere  
Y Bere Castle

# Archwiliwch deyrnas Gwynedd a straeon y tywysogion

## Explore the kingdom of Gwynedd and the story of the princes



### DILYNWCHY STRAEON I'R...

Castell carreg mawr yn **Harlech**, a adeiladwyd gan Edward I ac a ddaeth yn sail grym i Owain Glyndŵr yn nes ymlaen. Oddeutu 1 awr a 10 munud yn y car o Gonwy.

**Castell y Bere** ysblennydd, a adeiladwyd gan Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr). Y castell hwn yn nhirwedd llawn golygfeydd y Parc Cenedlaethol oedd y castell Cymraeg olaf i gwmpo i'r Saeson. Oddeutu awr ac 20 munud yn y car o Gonwy.

### FOLLOW THE STORIES TO...

The great stone castle at **Harlech**, built by Edward I and later to become the powerbase of Owain Glyndŵr. About an hour and 10 minutes drive from Conwy.

The spectacular **Castell y Bere**, built by Llywelyn ab Iorwerth ('the Great'). Located in the scenic landscape of the National Park, this was the last Welsh castle to fall to the English. About an hour and 20 minutes drive from Conwy.

